

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 2023

Enw'r Elusen: Cymdeithas Côr Meibion Caerfyrddin

Rhif cofrestredig: 259482

Cyfeiriad: Cyfeiriad yr Ysgrifennydd : Tŷ Hir, Picton Court, Caerfyrddin SA31 3DQ)

Ymddiriedolwyr:

Kevin Thomas (Cadeirydd)

Haydn Lloyd (Is-Gadeirydd)

Ieuan Phillips (Trysorydd)

Huw Michael (Ysgrifennydd)

Dogfen Rheolaeth: Y Cyfansoddiad a fabwysiadwyd ar 22/08/2017

Amcanion:

Amcanion y Côr yw hyrwyddo'r ymwybyddiaeth am ganu corawl ymhlith y cyhoedd, a dysgu a pherfformio darnau corawl yn gyhoeddus, tra'n cynorthwyo achosion elusennol.

Gweithgareddau a Chyflawniadau 2023

Rheolaeth

Nid oedd newidiadau i Gyfansoddiad y Côr yn ystod 2023.

Swyddogion.

Ddechrau'r flwyddyn, cyhoeddodd Jeff Thomas ei fod am sefyll lawr fel Llywydd a throsglwyddo'r awennau i rywun ifancach. Penodwyd Iwan Griffiths yn Lywydd newydd y cor ym mis Mawrth. Diolchwyd i Jeff am ei arweiniad a'i waith rhagorol fel Llywydd dros gyfnod o naw mlynedd.

Cymrodd Dai Lewis drosodd fel cynrychiolydd B2 gyda Richard Evans yn parhau fel Cydlunydd Facebook a'r wefan. Nid oedd unrhyw newidiadau eraill.

Aelodaeth

Parahwyd gyda'r tâl aelodaeth o £60 y flwyddyn am 2023 eto.

Denwyd nifer o aelodau newydd yn ystod y flwyddyn : Tim Vaughan (B2), Graham Bumford (B2), Emyr Phillips (T2) a Richard Gledhill (B2).

Yn drist iawn, bu farw Huw Williams (B2) ar y 17eg o Awst ar ôl salwch byr. Hedd i'w lwch.

Bu Dai Jones, Pencader, yn absennol gydol y flwyddyn o achos afiechyd. Hefyd Deian Griffiths, Gwyddgrug, o achos dyletswydd gofalu am ei rieni. Yn drist iawn, bu farw tad Deian ym mis Hydref, a'i fam ym mis Rhagfyr.

Nifer aelodau'r côr ar ddiwedd 2023 yw 29.

Presenoldeb

Tua'r 18-20 am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ond yn cynyddu i 20 – 25 yn dilyn derbyn aelodau newydd ac wrth i gyngerdd mis Tachwedd neshau.

Cyngherddau

Uchafbwynt hanner cynta'r flwyddyn oedd Cyngerdd Cymdeithas Corau Meibion Cymru yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd dan arweiniad Alwyn Humphreys ar Fehefin 24ain. Roedd 19 o'n haelodau ar y llwyfan yn rhan o'r côr mawr . Cafwyd noson hyfryd yng Nghaerdydd a bws i fynd â ni a gwagedd/ partneriaid yno a nôl.

Uchafbwynt ail hanner y flwyddyn oedd cyngerdd y côr yn Eglwys Crist nos Sadwrn 18fed o Dachwedd i dathlu 65 mlynedd ers sefydlu'r côr yn 1958. Roedd y lle'n llawn i wrando ar y côr a'r artistiaid gwâdd: Ffion Hâf (mezzo soprano), Owain Rowlands (baritone), Saxybrass, Meirion Wynn Jones (organydd a chyfeilydd gwâdd). Roedd 27 o aelodau'r côr ar y llwyfan. Rhannwyd elw'r noson gydag elusen Prostate Cymru.

Perfformiadau Eraill

- Gŵyl Pen y Dre 29ain o Orffennaf ar Sgwar Nott.
- Y Parc ar ddydd Sadwrn 19eg o Awst fel rhan o adloniant Sadwrn Cyngor Dref Caerfyrddin.
- Cartref Gofal Plasydderwen ar nos Fawrth, 21ain o Dachwedd.
- Cyngerdd Elusen Tenovus yn Eglwys San Pedr ar y 28ain o Dachwedd
- Hafan Tywi ar nos Fawrth, 12fed o Ragfyr.

Priodasau

7 Gorffennaf 2023: Priodas yn Eglwys St Cennydd, Llangennith (Ellie a Joe)

Angladd

Daeth nifer dda o aelodau'r côr i angladd Huw Williams yn Eglwys San Pedr ar yr 2il o Fedi. Canodd y côr Calon Lan i'r dôn "The Rose" yn yr angladd.

Elusennau

Cyfrannwyd £100 at Prosiect23 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai.

Cyfrannwyd £1600 at elusen Prostate Cymru h.y. hanner yr elw o'r gyngerdd ym mis Tachwedd.

Cymdeithasol

Noson Pei a Stwnsh yng Nghlwb y Cwins ar y 6ed o Fehefin. Cafwyd noson o hwyl a sbri gyda nifer o gystadleuthau canu rhwng yr adrannau yn ogystal â'r limrig traddodiadol, a chystadleuaeth llunio brawddeg.

Pwyllgor y Gwragedd

Dymuna'r Côr ddiolch i Bwyllgor y Gwragedd am eu cefnogaeth parhaol, yn enwedig am ofalu am y gwisgoedd, am drefnu'r Noson Pei a Stwnsh, ac am drefnu'r lluniaeth a helpu gyda threfniadau'r gyngerdd ym mis Tachwedd.

Repertoire

Roedd y pwyslais ar ddysgu darnau oedd yn cael eu canu yng nghyngherddau CCMC: cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd ym mis Mehefin 2023, a chyngerdd Neuadd Albert Llundain yn Ebrill 2024.

Mae rhestr llawn repertoire'r côr ar ein gwefan.

Arweinydd a Chyfeilyddes

Dymuna'r Ymddiriedolwyr fynegu eu gwerthfawrogiad am wasanaeth y Parchedig Wyn Maskell a Ms Heather Williams. Mae Wyn yn dal i deithio i Gaerfyrddin i arwain y côr yn wythnosol. Rydyn yn ffodus iawn i'w cael.